Pembrokeshire Public Services Board

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro

**COFNODION BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS SIR BENFRO**
**Dydd Mawrth, 22 Ionawr 2022 am 10am (Cyfarfod Microsoft Teams)**

**Yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Neil Prior | Cyngor Sir Penfro (Cadeirydd) |
| Philip Kloer | Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (Is-gadeirydd) |
| Tegryn Jones | Prif Weithredwr, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro |
| Sue Leonard | Prif Swyddog, Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro (PAVS) |
| David Evans | Pennaeth Cynorthwyol, Coleg Sir Benfro |
| Richard Brown | Prif Weithredwr Cynorthwyol, Cyngor Sir Penfro |
| Elaine Lorton | Cyfarwyddwr Sir Benfro, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Rebecca Evans | Uwch-swyddog Iechyd Cyhoeddus, Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Dr Steven Jones (SPJ) | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymunedol, Cyngor Sir Penfro |
| Mydrian Harries | Prif Swyddog Cynorthwyol - Cyfarwyddwr Adnoddau, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Iwan Thomas | Prif Weithredwr, PLANED |
| Tom Sawyer | Prif Swyddog Gweithredol, Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau |
| Rhian Jardine | Pennaeth Cynllunio Datblygu a Gwasanaethau Morol,CNC |
| Darren Mutter | Pennaeth Gwasanaethau Plant, Cyngor Sir Penfro |
| Claire Germain | Dirprwy Gyfarwyddwr Trawsnewid Llywodraeth Leol a Phartneriaethau, Llywodraeth Cymru |
| Vikki Butler | Lab Cyd-gynhyrchu Cymru |
| Dyfed Bolton | Prif Arolygydd Partneriaethau, Heddlu Dyfed-Powys |
| Dan Tomkins | Pennaeth Sicrwydd, Swyddfa Comisiynwyr Heddlu a Throseddu |
| Jenny McConnel | Dadansoddwr Newid, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol |
| Elle Henley-Herat | Hyrwyddwr Newid, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol |

*Cymorth/Ysgrifenyddiaeth*

| | |
|---|---|
| Nick Evans | Rheolwr Polisi a Phartneriaethau Corfforaethol, Cyngor Sir Penfro |
| Jemma Rees | Swyddog Cymorth Partneriaethau Corfforaethol, Cyngor Sir Penfro |
| Lynne Richards | Swyddog Partneriaethau Corfforaethol, Cyngor Sir Penfro |
| Amy Richmond-Jones | Rheolwr Ymgysylltu, Cynllunio a Pherfformiad, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |

**Ymddiheuriadau**

| | |
|---|---|
| Anna Malloy | Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu â Rhanddeiliaid, Porthladd Aberdaugleddau |
| Maria Battle | Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Y Cynghorydd Elwyn Williams | Cadeirydd Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru |

| | |
|---|---|
| Jo McCarthy | Dirprwy Gyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Caroline Drayton | Rheolwr Gweithrediadau, CNC |
| Christine Harley | Pennaeth Uned Cyflawni Lleol Heddlu Dyfed Powys, HMPPS |
| Will Bramble | Prif Weithredwr, Cyngor Sir Penfro |
| Dr Barry Walters | Pennaeth, Coleg Sir Benfro |

Dechreuodd y cyfarfod am 10.05am

**1. Croeso ac ymddiheuriadau**

Croesawodd NP y bwrdd a chyflwynodd JMC ac EHH o swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

**2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf/Cofnod camau gweithredu**

Nodwyd mân newidiadau a chymeradwywyd y cofnodion. Roedd yr holl gamau gweithredu o'r log gweithredu wedi'u cwblhau.

**3. Cynllun Llesiant drafft (Nick Evans)**

Dywedodd NE mai'r penderfyniad allweddol ar gyfer y cyfarfod oedd i'r bwrdd gymeradwyo'r Cynllun Llesiant drafft. Roedd yr adroddiad eglurhaol sydd wedi'i gynnwys yn y pecyn agenda yn nodi'r materion allweddol ar ôl y cyfarfod diwethaf ac roedd cyfarfod dilynol wedi'i gynnal ar 10 Hydref gyda rhai aelodau i gytuno ar y meysydd blaenoriaeth, a oedd yn cyd-fynd ag eitem 4 ar yr agenda. Y cam nesaf oedd i'r drafft fynd allan ar gyfer ymgynghoriad a phwysleisiodd NE yr amserlen dynn a bod angen i bartneriaid statudol gymeradwyo'r cynllun yn annibynnol ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) trwy eu prosesau llywodraethu eu hunain.

Roedd CG yn hoffi'r cynllun clir ar gyfer ymgynghori a dywedodd fod gan y drafft strwythur da a'i fod yn hawdd ei ddilyn ac y byddai'n darparu adborth ysgrifenedig ychwanegol ar ddrafftio'r penawdau. Roedd gan TJ bryderon ynghylch y gallu i gyflawni'r canlyniadau a adleisiwyd yn yr adborth, a holodd a ddylai'r canlyniad ar gyfer yr ardal dlodi fod i leihau tlodi, yn hytrach na chynhyrchu adroddiadau. Dylai peth geiriad daro deuddeg yn well gyda'r cyhoedd, megis "hysbysiad o gynnig" i "fynd i'r afael â'r mater o gael y cyfraddau tlodi plant gwaethaf".

Dywedodd PK fod y canlyniadau'n ymddangos fel prosesau ac nad ydynt yn berthnasol i'r cyhoedd, ac awgrymodd ddatblygu nodau beiddgar cyffredinol y BGC. Pan gyfarfu grŵp i sefydlu penawdau, awgrymodd PK na ddylid creu ffrwd waith benodol ar gyfer iechyd gan y byddai pob un o'r amcanion yn cwmpasu iechyd a llesiant, ond nododd nad oedd unrhyw naratif o fewn y penawdau i gefnogi iechyd a llesiant.

Dywedodd EL fod angen i'r cyhoedd ddeall sut y byddai'r canlyniadau'n cael eu mesur ac awgrymodd ddull o "wirio" o bryd i'w gilydd i fesur y cyflawniad. Sefydlodd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol y Grŵp Sir Benfro Iachach, a ddefnyddiodd y Ddeddf Llesiant i greu eu penawdau ac awgrymu defnyddio'r grŵp i gyflawni'r amcanion iechyd a llesiant. Byddai EL yn ysgrifennu cyfeiriad at y grŵp, yn nodi y byddai grŵp arall yn mynd i'r afael ag iechyd, a'i anfon at NE/LR.

Dywedodd RE nad oedd anghydraddoldebau wedi'u crybwyll yn y cynllun ac y dylai'r grŵp ymgysylltu â phobl sy'n profi anghydraddoldebau, er efallai nad y darn hwn o waith yw'r llwyfan

priodol. Yn yr adran cymunedau, dylai sefydliadau'r BGC fanylu ar sut y maent yn newid eu gwaith i hwyluso cryfhau cymunedau.

Nododd RB unwaith eto pa mor dynn oedd yr amserlen a gofynnodd i gael yr holl adborth ysgrifenedig cyn gynted â phosibl ac y byddai'r diwygiadau'n cael eu dosbarthu. Cytunodd PK ar y dull o ailddrafftio.

Gofynnodd SPJ a fyddai'r pedwerydd ardal prosiect ar economi, a grybwyllwyd yn yr adroddiad eglurhaol, yn cael ei adael yn ystod y cyfnod ymgynghori. Awgrymodd CG y dylid ychwanegu eglurder i'r ymgynghoriad drwy gynnwys bod y BGC yn ceisio barn y cyhoedd ynghylch a ddylid gwneud gwaith ar y pedwerydd ardal prosiect.

Gofynnodd TJ a ellid cynnwys yr amcanion beiddgar a awgrymwyd gan PK yn yr ymgynghoriad. Dywedodd NE fod cryn dipyn o waith wedi'i wneud i greu'r penawdau a'r weledigaeth, ac roedd yr ymgysylltiad a dderbyniwyd ar gyfer y Ddeddf Llesiant wedi bod yn anhrefnus i'w ddadansoddi. Awgrymodd NE ychwanegu datblygiad gweledigaeth y BGC at gyfarfod y BGC ym mis Ionawr lle gellid trafod hyn.

Dywedodd NE y byddai unrhyw newidiadau sylweddol uniongyrchol i'r cynllun drafft yn gyfyngedig gan fod y broses ymgynghori ffurfiol i'w lansio ddydd Gwener, ond pe bai gan bartneriaid unrhyw geisiadau am newid sylweddol, gellid gweithio arno yn ystod y cyfnod ymgynghori. Ychwanegodd NP nad oedd yn disgwyl unrhyw newidiadau sylweddol gan fod partneriaid wedi bod yn ymwneud â datblygu'r cynllun drafft ers mis Hydref.

Gofynnodd NP faint o adborth a ddisgwylir o'r ymgynghoriad a dywedodd NE fod disgwyl i ymgysylltiad cyhoeddus fod yn isel ond byddai'r ymgysylltu mwy ystyrlon yn debygol o ddod gan bartneriaid yn ymgysylltu â'u rhanddeiliaid trwy rwydweithiau presennol. Dywedodd IT nad yw'r cyhoedd yn teimlo eu bod yn gwneud newid yn ystod ymarferion ymgynghori yn hanesyddol ac anogodd bartneriaid i ddefnyddio pob rhwydwaith posibl i helpu'r cyhoedd i deimlo bod ganddynt berchnogaeth dros y BGC. Ychwanegodd NE nad oes gan y BGC unrhyw adnoddau, a dyna pam fod ymgysylltu yn heriol. Dywedodd SL fod grŵp ymgysylltu'r BGC, sy'n dod â swyddogion ymgysylltu o sefydliadau partner ynghyd i gynnal ymgynghoriad BGC, wedi cael anhawster i gyflawni ymgysylltiad ystyrlon yn ystod y Ddeddf Llesiant.

Gofynnodd NP i'r grŵp gytuno i gynnwys pedwerydd ardal y prosiect yn yr ymgynghoriad. Cymeradwywyd hyn. Dywedodd NE ar uchelgais economaidd, y byddai angen asesu sut y gallai'r BGC ychwanegu gwerth at y maes gwaith ar ben yr hyn sydd eisoes yn cael ei gyflawni gan grwpiau fel Bwrdd Uchelgais Economaidd Sir Benfro. Dylai'r BGC greu perthynas â'r grwpiau, yn hytrach na dyblygu gwaith. Dywedodd PK y byddai'r math hwn o waith cydweithredol yn brawf allweddol ar sut mae'r BGC yn rhannu adnoddau.

Dywedodd TJ fod angen sefydlu beth y gallai pob sefydliad ei gyfrannu at bob prif faes, yn enwedig yr economi gan fod partneriaid BGC yn cyflogi tua 20,000 o bobl gyda'i gilydd, a chanddynt bŵer caffael sylweddol. Dylid creu cynllun gweithredu yn manylu ar sut y gallai pob sefydliad fod yn rhan o'r agenda a phe bai sefydliad yn teimlo na all gyfrannu, dylai gyfiawnhau hyn gan nodi manylion.

Dywedodd SL fod y Cynllun Llesiant yn unigryw gan ei fod yn seiliedig ar le yn hytrach na chynllun segmentiedig clasurol yn seiliedig ar boblogaeth, a gofynnodd hefyd ble roedd yr asedau o'r trosglwyddiadau asedau cymunedol gan y gallai rhai fod o fewn gwasanaethau cyhoeddus, sy'n golygu y gellid eu defnyddio fel adnoddau.

Cadarnhaodd NE gyda'r grŵp mai'r arweinwyr ar gyfer pob maes oedd:

- Cymunedau – NP – a wahoddodd yr holl aelodau i gymryd rhan yn y gwaith
- Hinsawdd – CNC
- Tlodi – DM
- Economi – gwirfoddolodd SPJ i fod yn gyswllt i'r maes hwn gan ei fod yn aelod o'r Bwrdd Uchelgais Economaidd Sir Benfro a'r Panel Busnes.

Gofynnodd NP i drefnu sgyrsiau dilynol gydag arweinwyr/grwpiau ar ôl y cyfarfod i fireinio cynlluniau prosiect yn ystod y cyfnod ymgynghori.

Dywedodd TJ, o brofiad blaenorol, fod y grŵp yn effeithlon o ran creu cynlluniau ond ddim yn dda am gyflawni camau gweithredu a bod gweithgorau eisoes wedi'u sefydlu ar gyfer pob maes prosiect ar wahân i gymunedau ac awgrymodd greu gweithgor.

Gofynnodd NE am bleidleisiau i gymeradwyo’r Cynllun Llesiant drafft ar gyfer ymgynghoriad, a gytunwyd yn unfrydol.

## 4. Amcanion Llesiant – Cyngor ffurfiol gan Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol (Elle Henley-Herat / Jenny McConnel)

Gwnaeth JMC gyflwyniad yn amlinellu'r adborth gan Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, a oedd wedi'i ddosbarthu y bore cyn y cyfarfod.

Dywedodd TJ, gan mai dim ond y noson cyn y cyfarfod yr anfonwyd adborth ysgrifenedig oddi wrth Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i'r BGC, nid oedd y bwrdd yn gallu cael trafodaeth ystyrlon a gofynnodd am i hyn gael ei fwydo'n ôl i Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Ymddangosodd yr adran ddiwylliant o dan y faner hinsawdd a gofynnodd a oedd hwn yn gamgymeriad, ac awgrymodd gynnwys diwylliant yn yr ymgynghoriad i gael adborth lleol gan fod adborth Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn dweud ei fod yn gyfle a gollwyd. Dywedodd TJ hefyd ei fod yn teimlo bod datgysylltiad rhwng y sefydliadau cenedlaethol a’r BGC.

Dywedodd IT ar bwnc yr Iaith Gymraeg, fod PLANED yn eistedd ar gomisiwn newydd ar gyfer cymunedau Cymraeg eu hiaith ac y gallai ymgysylltu â'r grwpiau hynny yn yr ardal honno.

## 5. Polisi Cymunedau Llywodraeth Cymru – Adborth o’r cyfarfod ar 2 Tachwedd

Roedd NP wedi gwirfoddoli i’r BGC gyfrannu at ddatblygiad polisi cymunedau Llywodraeth Cymru. Roedd y cyfarfod cychwynnol wedi cynnwys trafodaeth gadarnhaol lle’r oedd modd gofyn cwestiynau megis “a fyddai’r polisi cymunedau yn ein helpu?” a “beth all Llywodraeth Cymru ei wneud i helpu?” lle atebodd NP ac SL y byddai’n lleihau biwrocratiaeth a darparu cefnogaeth i greu perthynas gyfartal.

Credai SL y byddai'r polisi'n ddefnyddiol pe bai'n cael ei greu yn y ffordd gywir, mewn fformat fframwaith galluogol.

Dywedodd NP mai cyfarfod dilynol oedd y camau nesaf.

## 6. Unrhyw Fater Arall

Roedd NP wedi derbyn galwad ffôn gan gadeirydd BGC Sir Gaerfyrddin yn gofyn a oedd gan BGC Sir Benfro unrhyw ddiddordeb mewn uno, ond roedd NP o’r farn y dylai Sir Benfro aros yn annibynnol. Dywedodd NE fod BGC Sir Gaerfyrddin wedi gwahodd BGC Sir Benfro a

Cheredigion yn ffurfiol i uno i fod yn BGC rhanbarthol tua dwy neu dair blynedd yn ôl ac nad oedd unrhyw awydd bryd hynny i ddilyn y trywydd hwn, ond ychwanegodd y dylid manteisio ar gyfleoedd ar gyfer gweithgor rhanbarthol gyda BGCau cyfagos pan fo hynny'n briodol.

Dywedodd NE fod cyfarfod BGC wedi'i ychwanegu ym mis Ionawr 2023 i roi diweddariad ar gynnydd y Cynllun Llesiant ac y gallai'r agenda gynnwys sesiwn gweledigaeth ar gyfer uchelgais BGC fel yr awgrymwyd gan PK.

Dywedodd SL fod Gyda'n Gilydd dros Newid yn cynnal cyfres o weminarau o'r enw "Syniadau Diderfyn" wedi'u hariannu gan y Gronfa Adfywio Cymunedol, ac y cynhaliwyd digwyddiad wyneb yn wyneb ym mis Rhagfyr y gwahoddwyd yr holl aelodau a chynrychiolwyr sefydliadau iddo.

Anogodd NP yr holl aelodau i barhau â'r gwaith rhwng cyfarfodydd.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.45am.